




National Audit Office



Y cynnydd a wnaed i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc yng Nghymru

Y Comisiwn Etholiadol

**MEMORANDWM AR
GYFER PWYLLGOR
Y LLYWYDD**

gan y
Swyddfa Archwilio
Genedlaethol

HYDREF 2021

Ni yw corff
gwarchod gwariant
cyhoeddus
annibynnol y
Deyrnas Unedig.

Rydym yn helpu'r Senedd
i ddwyn y llywodraeth i
gyfrif ac rydym yn helpu
i wella gwasanaethau
cyhoeddus drwy ein
harchwiliadau o
ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer y Senedd ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydyn ni'n helpu'r Senedd i ddwyn y llywodraeth i gyfrif a defnyddiwn ein craffter i helpu pobl sy'n rheoli ac yn llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol (C&AG), Gareth Davies yn Swyddog yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn arwain yr NAO. Rydyn ni'n archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydyn ni hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario.

Yn 2020, arweiniodd gwaith yr NAO at effaith ariannol gadarnhaol o £926 miliwn, drwy lai o gostau, gwell darpariaeth gwasanaethau, neu fanteision eraill i ddinasyddion.



Cynnwys

Cyflwyniad 4

Strategaeth ac amcanion 5

Cyflawni a monitro 9


Llywodraethu a dysgu 12


Aelodau tîm y Swyddfa Archwilio
Genedlaethol oedd:


Philip Bradburn, Brian Kennedy,
Ioana Stefu a Katie Taylor,
dan gyfarwyddyd Liz Fox.

I gael rhagor o wybodaeth am y
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
cysylltwch â:

National Audit Office
Press Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

 020 7798 7400

 www.nao.org.uk

 @NAOorguk

Cyflwyniad

1 Mae gofyn i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG), dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, lunio adroddiad ar gyfer Pwyllgor y Llywydd (y Pwyllgor) ar yr adnoddau a ddefnyddia'r Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) i gyflawni ei swyddogaethau o safbwynt etholiadau datganoledig Cymreig a refferenda datganoledig Cymreig (neu, os yw'r C&AG yn mynnu felly, unrhyw rai o'r swyddogaethau hynny). Mae'r adroddiad gan y C&AG yn ddyledus adeg cynhyrchu Cynllun Corfforaethol pum mlynedd y Comisiwn a'i Amcangyfrif ariannol.

2 Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. Nod y Comisiwn yw ennyn hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Fe'i sefydlwyd dan PPERA i fod yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac mae'n uniongyrchol atebol i Senedd y DU ac i'r senedd-dai datganoledig.

3 Mae'r Comisiwn yn monitro etholiadau a refferenda i sicrhau eu bod yn deg ac yn rhedeg yn llyfn, gan ennyn hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Y Comisiwn sy'n darparu'r arweiniad a'r cyngor sy'n galluogi i etholiadau gael eu cynnal, ac mae hefyd yn gosod safonau perfformiad ar gyfer sut dylent gael eu cyflawni. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Comisiwn yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn y cyfnod cyn etholiadau i annog pobl i gofrestru i bleidleisio. Ar gyfer etholiadau 2021 yng Nghymru, mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd ac adnoddau a oedd yn canolbwyntio ar bleidleiswyr sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio, yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol i ymestyn yr hawl i bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd i unigolion 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion tramor sy'n gymwys. Mae cynllun pum mlynedd y Comisiwn yn cynnwys £1.3 miliwn o gyllid ar gyfer ymgyrchoedd a gohebiaethau digidol i'r dyfodol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2022-23 i 2026-27.

4 I gefnogi Pwyllgor y Llywydd yn ei waith, mae ein memorandwm yn ystyried sut mae'r Comisiwn wedi llwyddo yn ei rôl i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc (16–34 oed) yng Nghymru. Fe wnaethom ystyried: strategaeth ac amcanion y Comisiwn ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth, cofrestradau a diddordeb ymysg pobl ifanc yn etholiadau 2021; y cynlluniau a'r trefniadau llywodraethu ategol, ac unrhyw drefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu. Lle bo hynny'n briodol, rydym wedi amlygu'r ystyriaethau ymarferol y gallai'r Comisiwn eu datblygu ymhellach i wella ei brosesau cynllunio ac adrodd gydag ymgyrchoedd i'r dyfodol fel rhan o'i gynllun busnes newydd ar gyfer 2022–2027.

5 Rhannwyd cynnwys y memorandwm hwn gyda'r Comisiwn i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ffeithiol gywir.

Strategaeth ac amcanion

6 Wrth archwilio dull y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) o ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc, rydym wedi ystyried i ba raddau y mae wedi:

- sefydlu amcanion clir;
- defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol i lywio'r strategaeth gyfredol; a
- datgan rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid.

Nodau ac amcanion

7 Nod y Comisiwn yw galluogi i etholiadau a refferenda teg ac am ddim barhau i gael eu cynnal a sicrhau bod y broses o gofrestru a phleidleisio yn hygyrch i bawb. Un rhan allweddol o hyn yw ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc, a nodir fel unigolion rhwng 18 a 34 oed ar draws y Deyrnas Unedig, a hefyd bobl ifanc 16 ac 17 oed ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban.

8 Er mwyn helpu i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc, cynhaliodd y Comisiwn ymgyrch cofrestru pleidleiswyr cyn etholiadau Mai 2021. Cynhaliwyd yr ymgyrch hwn o fis Mawrth i fis Ebrill 2021 a chanolbwyntiai'n arbennig ar ddylanwadu ar grwpiau a fu'n anos eu cyrraedd yn draddodiadol. Yn ychwanegol at ei nodau trefniadol cyffredinol, gosododd y Comisiwn amcanion penodol ar gyfer ei ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer etholiadau 2021 yng Nghymru. Dyma'r amcanion:

- prif amcan o gael mwy o bleidleiswyr i gofrestru cyn y digwyddiad etholiadol er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n dymuno bwrw eu pleidlais yn gallu gwneud hynny; ac
- amcan eilaidd o gynyddu ymwybyddiaeth o etholiadau a gynhelir yn fuan ac o'r system etholiadol.

9 I helpu i gyflawni'r amcanion hyn, cafodd rhaglen ddiweddar o adnoddau addysgol ar gyfer pleidleiswyr ei chreu, ei dosbarthu a'u hyrwyddo. Roedd hyn yn cynnwys set o adnoddau a fwriadwyd ar gyfer pobl ifanc 14–18 oed yng Nghymru a'r Alban mewn pryd ar gyfer yr etholiadau datganoledig.

Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd

Dyluniad y strategaeth

10 Roedd strategaeth ehangach y Comisiwn i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau a phleidleisio ar draws y Deyrnas Unedig yn nodi bod ei gynlluniau cyfredol yn seiliedig ar y wybodaeth, yr arbenigedd a'r data helaeth y mae wedi'i gasglu bob blwyddyn, yn ogystal ag ar y gwerth am arian a welwyd drwy ganlyniadau ei ymgyrchoedd blaenorol. Wrth ddylunio Cynllun Ymwybyddiaeth Gyhoeddus Cymru, fe wnaeth y Comisiwn:

- dargedu ei hysbysebion at y rheini sydd wedi methu â chofrestru oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu ddiolfalwch, yn hytrach na rhai sy'n ymwybodol ond yn ddi-ddiddordeb, oherwydd fe wyddai fod hynny'n fwy effeithiol;
- defnyddio ymchwil i gynnal prif ffocws ar bobl ifanc 18–34 oed ar gyfer yr ymgyrch;
- defnyddio'i wybodaeth bod hysbysebu ar y cyfryngau torfol wedi bod yn llai effeithiol na chyfathrebu drwy sefydliadau y mae ganddynt eisoes lais cryf yn y gymuned; a
- defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes i ddefnyddio'r wybodaeth benodol sydd gan awdurdodau lleol am grwpiau y mae nifer annigonol o'u haelodau wedi cofrestru yn eu hardaloedd.

Rhwystrau rhag pleidleisio

11 Yn 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymchwil i sut orau i adnewyddu ymgysylltiad democrataidd. Fel rhan o'r ymchwil hwn, aed ati i ganfod y prif gymhellion dros bleidleisio, a'r rhwystrau rhag pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru a'u pwysigrwydd i bobl ifanc yng Nghymru. Gwelwyd chwe phrif rhwystr (**Ffigur 1**).

12 Fe wnaeth ein hadolygiad o gynlluniau'r wasg ac ymgyrchoedd ganfod tri phrif gam y mae'r Comisiwn wedi'u cymryd mewn ymateb i'r rhwystrau hyn. Sef, ymgyrch hysbysebu ymwybyddiaeth gyhoeddus, darparu adnoddau addysgol ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid (gan gynnwys Llawlyfr i Addysgwyr a Llawlyfr i Bobl Ifanc), a chynhyrchu a dosbarthu arweiniad pleidleisio i bob aelwyd yng Nghymru. Fe roddai'r cynlluniau hyn sylw i dri o'r chwe rhwystr yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u nodi (**Ffigur 2** ar dudalen 8).


13 Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am weithgaredd i sicrhau bod rhagor o enwau'n cael eu hychwanegu i'r gofrestr etholiadol ac mae'n defnyddio gwybodaeth am rwystrau i lywio ei waith. Creodd y Comisiwn gyllideb fanwl ar gyfer etholiadau Mai 2021 gyda chyllid ar wahân ar gyfer cynlluniau yng Nghymru. Fe wnaeth ddyrannu cyllid ar gyfer gweithgareddau gan gynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau, ymchwil tracio ac ar gyfer adnoddau addysgol. Ar gyfer Cymru, roedd hyn yn cynnwys £224,000 ar gyfer y cyfryngau a oedd yn targedu pobl ifanc 18–34 oed yn benodol ynghyd â £30,000 ar gyfer y cyfryngau a oedd yn targedu pobl ifanc 16–17 oed yn benodol.

Ffigur 1

Beth sy'n rhwystro pobl ifanc yng Nghymru rhag pleidleisio

Gwelodd Llywodraeth Cymru chwe phrif rhwystr

Y rhwystrau mwyaf cyffredin oedd:



Sylwer

- 1 Roedd sampl Llywodraeth Cymru i adnabod y rhwystrau'n rhychwantu pedwar grŵp eang o gyfranogwyr: pobl ifanc 14–17 oed (wyth grŵp ffocws); oedolion wedi ymddieithrio 18+ oed (wyth grŵp); gwladolion tramor (28 o gyfranogwyr); a rhanddeiliaid (12 o gyfranogwyr). Cafodd pump grŵp ffocws eu cynnull yn Gymraeg. Fe wnaeth cyfanswm o 148 o bobl gymryd rhan yn yr ymchwil rhwng diwedd Gorffennaf a dechrau Tachwedd 2019 yn Aberystwyth, Rhydaman, Caernarfon, Caerdydd, y Drenewydd, Abertawe, Torfaen, Trallwng a Wrecsam.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Ymchwil Llywodraeth Cymru, *Adnewyddu Ymgysylltiad Democrataidd*, Ymchwil Archwiliol

Rôl a chyfrifoldebau – gweithio â phartneriaid

14 Mae'r Comisiwn yn gweithio ag amrywiol bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill gan gynnwys rhai sy'n gweithio â phobl ifanc. Mae wedi gwneud cynllun partneriaeth sy'n amlinellu sut bydd yn cyflawni ei waith â phob sefydliad partner. Mae wedi dweud mai ei bartneriaid a rhanddeiliaid eraill sydd yn y sefyllfa orau i dargedu cynulleidfaoedd sydd wedi ymddieithrio ac sydd wedi gwneud penderfyniad effro i beidio â chofrestru i bleidleisio, yn ogystal â phleidleiswyr sydd angen cefnogaeth a gwybodaeth benodol i gyfranogi mewn etholiadau. Mae wedi cynnal ymarferiadau mapio rhanddeiliaid i sicrhau bod ei ymgysylltiad â sefydliadau partner yn cael yr effaith orau bosibl.

Ffigur 2

Rhoddodd ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru sylw i'r hyn sy'n rhwystro pobl ifanc rhag pleidleisio

Rhoddodd ymgyrch y Comisiwn Etholiadol sylw i dri o'r pethau sy'n rhwystro pobl ifanc rhag pleidleisio

Rhwystro rhag pleidleisio i bobl ifanc	Ymgyrch hysbysebu ymwybyddiaeth gyhoeddus	Adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid	Arweiniad pleidleisio ar gyfer aelwydydd
Diffyg gwybodaeth sylfaenol am wleidyddiaeth	✓	✓	✓
Gwleidyddiaeth ddim yn apelio atynt			
Yn teimlo bod gwleidyddiaeth yn ddryslud	✓	✓	✓
Siomedigaeth yn y broses etholiadol a theimlad nad yw pleidleisio'n gwneud dim gwahaniaeth			
Yn teimlo nad oes ganddynt gysylltiad â gwleidyddiaeth	✓	✓	✓
Dim ffydd mewn gwleidyddion			

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Ymchwil Archwiliol Llywodraeth Cymru, *Adnewyddu Ymgysylltiad Democrataidd*

Ystyriaethau'r dyfodol o safbwynt strategaeth ac amcanion

15 Defnyddiodd y Comisiwn y gwaith a wnaeth eisoes a'r gwersi a ddysgwyd i helpu i ddylunio ei amcanion. Mae'r amcanion hyn yn glir ac wedi'u diffinio'n dda. Fe wnaeth y Comisiwn hefyd gymryd camau priodol i helpu i wella'r wybodaeth a'r eglurder yn y broses etholiadol a rhoi sylw i'r diffyg cysylltiad rhwng pleidleiswyr a'r broses etholiadau.

16 I sicrhau cynnydd pellach yn nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru, dylai'r Comisiwn, gan ddal i fod yn ddiuedd, weithio â'i bartneriaid i gynllunio a chyflawni camau i roi sylw i'r rhwystrau rhag pleidleisio sy'n weddill.

Cyflawni a monitro

17 Wrth archwilio dull y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) o gyflawni a monitro perfformiad, rydym wedi ystyried i ba raddau y mae gan y Comisiwn:

- ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sydd wedi'u cysylltu'n briodol ag amcanion eu hymgyrch;
- mynediad i ddata aml, amser real sy'n caniatáu iddo fonitro a gwerthuso cynnydd yn amserol, a gweithredu i helpu i wella'r ffordd y cyflawnir prosiectau; a
- phroses rheoli risg sy'n caniatáu iddo ddeall a lliniaru risg ymgyrchoedd.

Dangosyddion perfformiad allweddol

18 I sicrhau bod yr ymgyrch yn mynd rhagddo fel y dylai, mae'r Comisiwn yn gosod DPA ac yn monitro cynnydd yn eu herbyn. Mae gan y Comisiwn bump DPA ar gyfer pobl ifanc 18–34 oed yn ei ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus (**Ffigur 3** dros y dudalen). Mae'r targed lleiaf ar gyfer pob DPA yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol ac mae'n ystyried yr adnoddau a ddyrannwyd a'r gwariant ym mhob maes o'r ymgyrch.

19 Mae'r dangosyddion hyn yn ategu'r prif amcan sef cael mwy o bleidleiswyr i gofrestru a'r ail amcan sef cynyddu ymwybyddiaeth o etholiadau a gynhelir cyn bo hir ac o'r system etholiadol. Ar gyfer ymgyrch 2021, roedd y perfformiad yn erbyn y DPA hyn yn fras yn unol â'r targedau a nodwyd.

Defnyddio data a gwerthuso


20 Mae'r Comisiwn yn gwneud gwerthusiad ar ôl pob ymgyrch. Ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus Cymru, bu'r gwerthusiad yn ystyried:

- nifer y ceisiadau yn ôl oedran;
- nifer yr erthyglau a gyhoeddwyd ac a gyfeiriai at negeseuon allweddol y Comisiwn o ran gwybodaeth i bleidleiswyr a chofrestru pleidleiswyr;
- nifer y cynghorau a'r cyhoeddiadau lleol a ddefnyddiodd datganiadau i'r wasg y Comisiwn;
- lefelau diddordeb mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol; a
- gwariant yr ymgyrch a chwmpas yr ymgyrch.

Ffigur 3

Dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru

Cyflawnodd y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) ddau o'i bump DPA ar gyfer pobl ifanc 18-34 oed a oedd yn ategu ei ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru



Cyflawnwyd
 Methu o drwch blewyn
 O dan

Sylwer

1 Roedd sampl YouGov i asesu perfformiad y Comisiwn yn erbyn ei DPA yn gynnwys 614 o ymatebwyr o Gymru. Cynhaliwyd y gwaith maes o 21 Ebrill o 5 Mai 2021 a phwysolwyd y samplau i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth yn ôl oedran, rhyw, rhanbarth, gradd gymdeithasol a lefel addysg.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata gwerthuso YouGov o ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol

21 Mae'r Comisiwn wedi monitro perfformiad ei ymgyrch gan ddefnyddio nifer o fetrigau - gan gynnwys adnabod a chofio'r ymgyrch, a diddordeb (hoffi a chlicio) yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae ganddo hefyd ddata cydgasgledig ar ganlyniad terfynol y cofrestradau ychwanegol. Fodd bynnag, ni cheir cysylltiad rhwng y ddau a fyddai'n caniatáu iddo ddeall beth sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol i ddileu rhwystrau ac annog pobl i gofrestru.

22 Mae gan y Comisiwn fynediad i ddata ar geisiadau pleidleiswyr dyddiol ac ar y traffig i'r wefan drwy gyfrwng dangosfwrdd gov.uk, yn ogystal â data ar berfformiad ei hysbysebion digidol. Nid yw'r data i asesu perfformiad yn erbyn DPA, fodd bynnag, ond ar gael ar ddiwedd ymgyrch ac fe'u cyhoeddir fel rhan o adroddiad gwerthuso etholiadau'r Comisiwn.

Rheoli risgiau

23 Cynhaliodd staff y Comisiwn gyfarfodydd dyddiol yn ystod dyddiadau'r ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ochr yn ochr â chyfarfodydd Uwch Arweinyddion wythnosol. Roedd hyn yn ychwanegol at y cyfarfodydd rheolaidd a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru, yr oedd staff o'r Comisiwn yn bresennol ynddynt i sicrhau y bwriwyd cyfrif o'r risgiau a'u bod yn cael eu lliniaru'n briodol. Fe wnaeth y Comisiwn hefyd sefydlu is-grŵp o Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i drafod cynlluniau cyfathrebu a'r dyraniad adnoddau rhwng yr holl bartneriaid perthnasol ar draws Cymru. Fe wnaeth hyn leihau'r risg bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ynysig er anfantais i feysydd eraill yr ymgyrch.

24 Fe wnaethon ni hefyd asesu cofrestr risgiau prosiectau'r Comisiwn o safbwynt ei ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus. Roedd yn cynnwys naw o risgiau a welwyd a chafodd effaith bosibl pob un ei hystyried. Darparwyd o leiaf ddau fesur lliniaru ar gyfer pob un, gyda phedwar neu ragor o fesurau lliniaru ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o risgiau. Roedd cynllun wrth gefn hefyd wedi'i sefydlu ar gyfer oedi a mynd dros amser, gan ddisgrifio'r dyddiad hwyraf posibl y gellid gwneud penderfyniadau a'r fframiau amser byrraf posibl y gallai'r Comisiwn eu cyflawni'n realistig.

Ystyriaethau'r dyfodol ynglŷn â chyflawni a monitro

25 Roedd DPA y Comisiwn wedi'u cyplysu'n glir â'i brif amcan a'i amcan eilaidd. Roedd wedi ystyried sut orau i fonitro a gwerthuso cynnydd, ac mae'r Comisiwn yn gweithredu ar y data y mae'n ei gasglu i wella perfformiad i'r dyfodol.

26 I helpu i wneud ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr yn fwy effeithiol i'r dyfodol, dylai'r Comisiwn:

- ystyried a allai wneud mwy o ddefnydd o ddata perfformiad amser real gan asiantaethau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn gymryd camau priodol ac effeithlon, os oes angen, yn ystod ymgyrchoedd; a
- datblygu ar ymchwil blaenorol ar effaith ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr drwy archwilio'r potensial ar gyfer treialon sy'n cysylltu'r data ar ganlyniadau cofrestru pleidleiswyr unigol â data tracio ymgyrchoedd. Byddai hyn yn arwain at dystiolaeth fanylach ar beth sy'n gweithio i gael mwy o bleidleiswyr i gofrestru mewn ardaloedd daearyddol penodol ac mewn is-setiau o bleidleiswyr ifanc.

Llywodraethu a dysgu

27 I ategu trefniadau llywodraethu priodol a chynnwys gwersi a ddysgwyd mewn gwaith i'r dyfodol, fe wnaethom ystyried:

- trefniadau atebolrwydd, yn benodol ar gyfer uwch noddwyr prosiectau;
- tystiolaeth o effaith y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn);
- cyhoeddi canlyniadau'r ymgyrch i rannu'r arferion gorau a meysydd i'w gwella i'r dyfodol ar draws y sefydliad; a
- chynlluniau ar gyfer amlygu a rhannu gwersi i lywio strategaethau i'r dyfodol.

Trefniadau atebolrwydd

28 O fewn y Comisiwn, y cyfarwyddwr cyfathrebu, polisi ac ymchwil yw'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am y trefniadau ar gyfer cyflawni'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus. Dan eu cyfarwyddyd, mae gofyn i dîm yr ymgyrch gyflwyno cynlluniau i Fwrdd y Comisiwn ar gyfer pob prosiect newydd. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cymeradwyo er mwyn i ymgyrch allu bwrw ymlaen. Rydym wedi adolygu'r papurau a gyflwynwyd i Fwrdd y Comisiwn ar gyfer yr ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a'r ymgyrch addysgol Llythrennedd Gwleidyddol. Roedd y testunau allweddol a gafodd sylw ym mhob papur bwrdd yn cynnwys:

- y strategaeth a diben yr ymgyrch;
- gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; a
- sut i fesur effaith yr ymgyrch.

29 Fodd bynnag, nid oedd dim gofyn ffurfiol i dimau prosiect adrodd yn ôl mewn manylder wrth Fwrdd y Comisiwn unwaith y mae ymgyrchoedd yn mynd rhagddynt. Nid yw timau prosiectau ond yn cyflwyno diweddariad misol byr ar hynt ymgyrchoedd fel rhan o adroddiad y prif swyddog gweithredol. Mae hyn yn golygu na fydd Bwrdd y Comisiwn bob amser yn cael golwg buan ar unrhyw faterion a allai effeithio ar amseroldeb neu effeithiolrwydd ymgyrch.

Priodoli canlyniadau

30 Roedd gan y Comisiwn darged o gynhyrchu o leiaf 50,000 o geisiadau gan bleidleiswyr newydd yng Nghymru yn ystod yr ymgyrch. Rhagorodd ar ei darged gyda'r data terfynol yn dangos 71,562 o geisiadau gan bleidleiswyr newydd, gan gynnwys 7,704 o geisiadau gan bobl ifanc 16-17 oed. Roedd y cyfraddau cofrestru ar gyfer pleidleiswyr newydd yn amrywio yn ôl dosbarth awdurdod lleol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig (**Ffigur 4** a **Ffigur 5** ar dudalen 14). Nid yw'r data ar geisiadau ond yn cynnwys ceisiadau a wnaed yn ystod ffrâm amser ymgyrch y Comisiwn. Fodd bynnag, ac ystyried nifer y ffactorau sy'n dylanwadu ar geisiadau gan bleidleiswyr, mae'n anodd dangos effaith ychwanegol gwaith y Comisiwn.


Ffigur 4

Oedolion ifanc (18–34 oed) a gofrestrodd i bleidleisio'n ddiweddar yn y Deyrnas Unedig, fesul awdurdod lleol

Canran y bobl ifanc 18-34 oed wnaeth gyflwyno cais i bleidleisio rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021, fesul awdurdod lleol

Canran y bobl ifanc 18–34 oed a gyflwynodd gais i bleidleisio

- 4.48% – 13.57%
(74 rhanbarth awdurdod lleol)
- 3.75% – 4.47%
(75 rhanbarth awdurdod lleol)
- 3.32% – 3.74%
(74 rhanbarth awdurdod lleol)
- 2.74% – 3.31%
(74 rhanbarth awdurdod lleol)
- 0.01% – 2.73%
(74 rhanbarth awdurdod lleol)
- Data ddim ar gael



Nodiadau

- 1 Mae'r data a gyflenwyd gan y Comisiwn Etholiadol inni ei ddefnyddio yn disgrifio ceisiadau a gyflwynwyd rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021 ond roedd yn cyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol 2019, ond mae'n cynnwys 371 o awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
- 2 Ni ddarparodd y Comisiwn Etholiadol ddata ar gyfer Gogledd Iwerddon gan na chynhaliwyd dim ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr na phleidleisiau yng Ngogledd Iwerddon yn ystod yr amser hwn.
- 3 Roedd canran y bobl ifanc 18–34 oed a gyflwynodd gais i bleidleisio (rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021) yn y Deyrnas Unedig yn amrywio o 0.01% i 13.57% a'r ffigur cyfartalog oedd 3.77%.
- 4 Amcangyfrifodd ONS fod cyfanswm poblogaeth y bobl ifanc 18–34 oed yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn 14,196,998.


Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata cofrestru pleidleiswyr gan y Comisiwn Etholiadol ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data poblogaeth gan ONS, Cedwir Hawlfraint y Goron (o Nomis ar 16 Medi 2021). Shapefile gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a drwyddedir dan Drwydded y Llywodraeth Agored v.3.0. Mae'n cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata (2021)

Ffigur 5

Pobl ifanc 14–17 oed a gofrestrodd i bleidleisio'n ddiweddar yng Nghymru, fesul awdurdod lleol

Canran y bobl ifanc 14-17 oed wnaeth gyflwyno cais i bleidleisio rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021, fesul awdurdod lleol

Canran y bobl ifanc 14-17 oed a gyflwynodd gais i bleidleisio



Nodiadau

- 1 Ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru, daw pleidleisiwr yn gymwys i bleidleisio yn 16 oed. Mae gan bobl ifanc 15 ac 14 oed hawl i gael eu cynnwys ar y gofrestr fel cyrhaeddwr. At ddibenion y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru, mae cyrhaeddwr yn rhywun sy'n troi'n 16 erbyn diwedd y deuddeg mis ar ôl y 1 Rhagfyr ar ôl y dyddiad perthnasol.
- 2 Mae'r data a gyflenwyd gan y Comisiwn Etholiadol inni ei ddefnyddio yn disgrifio ceisiadau a gyflwynwyd rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021 ond roedd yn cyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol 2019, ond mae'n cynnwys 22 o awdurdodau lleol.
- 3 Roedd canran y bobl ifanc 14-17 oed a gyflwynodd gais i bleidleisio (rhwng 9 Mawrth a 19 Ebrill 2021) yn amrywio o 4.47% a 14.49% a'r ffigur cyfartalog cyffredinol oedd 7.36%.
- 4 Amcangyfrifodd yr ONS fod cyfanswm y bobl ifanc 14–17 oed yng Nghymru yn 137,883.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata cofrestru pleidleiswyr gan y Comisiwn Etholiadol ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data poblogaeth gan ONS, Cedwir Hawlfraint y Goron (o Nomis ar 16 Medi 2021). Shapefile gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a drwyddedir dan Drwydded y Llywodraeth Agored v.3.0. Mae'n cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata (2021)

31 Mae data arall yn darparu rhywfaint o dystiolaeth o effaith y Comisiwn. Canfu arolwg gwerthuso'r Comisiwn, a gynhaliwyd ar draws Cymru gan YouGov ar ôl yr ymgyrch, fod 43% o bobl ifanc 18-34 oed yng Nghymru yn adnabod o leiaf un elfen o ymgyrch y Comisiwn. Wrth ystyried gwybodaeth am negeseuon craidd yr ymgyrch ymysg pobl ifanc 18-34, gwelwyd cynnydd amlwg wrth gymharu'r data cyn ac ar ôl yr ymgyrch. Fe wnaeth canran y bobl ifanc a wyddai fod angen ichi gofrestru i bleidleisio gynyddu o 78% i 84%, a chynyddodd canran y bobl ifanc a gredai ei bod yn cymryd oddeutu pum munud i gofrestru i bleidleisio o 41% i 49%. Mae'r gwaith o gasglu canlyniadau arolygon cyn ac ar ôl yr ymgyrch yn un elfen sy'n helpu'r Comisiwn i ystyried effaith ei waith.

Mynegi'r canfyddiadau

32 Dywedodd y Comisiwn wrthym fod ei flog ar y mewnwyd yn cael ei ddefnyddio i rannu diweddariadau rheolaidd gan ei dîm Ymgyrchoedd, Cyfathrebiadau Digidol a Dysgu, a thîm Cymru. Cafodd yr adroddiad ar werthuso'r ymgyrch – a oedd yn cynnwys cynnydd yn erbyn targedau, mesurau perfformiad allweddol a chanlyniadau arolygon rhanddeiliaid – hefyd ei gylchredeg yn fewnol â'r swyddfa ehangach. Credwn fod rhannu'r gwersi a ddysgir fel hyn yn arfer da. Fe wnaeth y Comisiwn hefyd gynnwys adran ar bleidleiswyr sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio yn ei adroddiad ar yr etholiad, a gyhoeddwyd ar 14 Medi. Mae hon yn fersiwn gywasgedig o'r adran ar bleidleiswyr sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio yn yr adroddiad gwerthuso, yr ydym wedi'i hasesu fel rhan o'r memorandwm hwn.

Dysgu a rhannu gwersi

33 Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus* yn datgan ei bod yn hanfodol ar gyfer penderfyniadau mewnol effeithiol fod trefniadau ar waith i amlygu a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Ar gyfer y Comisiwn, mae hyn yn golygu defnyddio canlyniadau ymgyrch 2021 i lywio gwaith i'r dyfodol, yn benodol ar bleidleiswyr ifanc ac yn ehangach ar ymgyrchoedd ymwybyddiaeth eraill. Rydym wedi adolygu papur Mai 2022 i Fwrdd y Comisiwn ar ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig ar gyfer etholiadau Mai 2022. Ceir tystiolaeth glir bod y canfyddiadau o ymgyrch Mai 2021 wedi cael eu defnyddio i lywio strategaeth y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio:

- sgoriau adnabod yr ymgyrch i asesu a yw cysyniadau hysbysebu (fel y cysyniad 'Got 5') yn dal i berfformio'n dda ac a ddylid ei ail-ddefnyddio;
- data diddordeb i ystyried perfformiad hysbysebion digidol y telir amdanynt a newid y cynulleidfaoedd targed; a
- data ar geisiadau gan rai sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio i sefydlu llinell sylfaen a datblygu targedau ceisiadau gan bleidleiswyr ifanc ar gyfer Mai 2022.

Ystyriaethau'r dyfodol ynglŷn â chyflawni a monitro

34 Cynhaliodd y Comisiwn gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda phartneriaid ac asiantaethau cyflawni gydol cyfnod yr ymgyrch, yn ogystal â chyfarfodydd mewnol bob pythefnos gyda holl arweinyddion y llifoedd gwaith. Fe wnaeth y Comisiwn hefyd gyrraedd ei darged o ychwanegu o leiaf 50,000 o geisiadau gan bleidleiswyr newydd yng Nghymru gydol cyfnod yr ymgyrch a defnyddiodd y canfyddiadau o'r ymgyrch hwn i lywio ei strategaeth ar gyfer y dyfodol.

35 Er mwyn sicrhau cynnydd pellach mewn cofrestrïadau pleidleiswyr ac atebolrwydd, a gan fod codi ymwybyddiaeth pleidleiswyr yn flaenoriaeth, dylai'r Comisiwn:

- adolygu'r trefniadau adrodd cyfredol ar gyfer ymgyrchoedd gyda Gweithrediaeth a Bwrdd y Comisiwn i sicrhau bod y trefniadau gorau ar waith i gynnal atebolrwydd; ac
- ystyried llunio adroddiad gwerthuso mwy manwl ar y cynnydd a wnaed i gofrestru pobl ifanc 16–17 oed yng Nghymru a'r Alban sy'n cynnwys mesurau yn erbyn y pump DPA cyffredinol a nodwyd ar gyfer pobl ifanc 18–34 oed.

Daw'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon dan hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Caniateir copïo neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgynhyrchu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu i'w gylchredeg o fewn sefydliad er mwyn ei adolygu.

Os caiff ei gopïo at ddibenion anfasnachol rhaid cynnwys gyda'r deunydd gydnabyddiaeth ddigonol, rhaid iddo gael ei atgynhyrchu'n gywir, a pheidio â chael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO at unrhyw ddiben arall, rhaid ichi gysylltu â copyright@nao.org.uk. Cofiwch ddweud wrthym pwy ydych, y sefydliad a gynrychiolwch (os o gwbl) a sut a pham hoffech chi ddefnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Cofiwch na cheir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon am fantais fasnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol NAO a bod NAO yn cadw'r hawl i gynnal achos torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd am fantais fasnachol heb ein caniatâd.

Roedd y dolenni i wefannau allanol yn ddilys adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni i'r dyfodol.



National Audit Office